

## **Pwerau Ymchwilio Uwch i'r Asiantaeth Safonau Bwyd o dan:**

- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984 (Cymru a Lloegr);
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001; a
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

## **Ymgynghoriad y Llywodraeth**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau: 26 Mai 2022

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben: 18 Awst 2022

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

**At:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd ac wedi'i dargedu at unigolion, busnesau a sefydliadau yng Nghymru a Lloegr.

Mae deddfwriaeth ar wahân sy'n llywodraethu pwerau ymchwilio yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar gyfer Gogledd Iwerddon maes o law.

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf i ddeddfwyr, adrannau gweinidogol ac anweinidogol y llywodraeth sy'n ymwneud ag ymchwilio i ddiogelwch bwyd a thwyll, y rheiny sy'n gweithio ym maes plismona a gorfodi, cyrff ac arolygiaethau safonau proffesiynol, y gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol, swyddogion safonau masnach, gweithwyr iechyd yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus proffesiynol, gweithredwyr busnesau bwyd a chyrrff masnach, defnyddwyr a sefydliadau hawliau sifil.

**Pwnc:** Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar gynlluniau'r ASB i geisio pwerau ymchwilio uwch ar gyfer yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) trwy Offeryn Statudol (SI).

Cafodd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022. Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, gyflwyno pwerau perthnasol o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i swyddogion yr Uned.

Cynigir y byddai pwerau ymchwilio uwch yn galluogi Uned yr ASB i ganfod ac ymchwilio i droseddau bwyd yn fwy effeithiol.

**Hyd:** Rhwng 26 Mai 2022 a 18 Awst 2022.

**Ymatebion:** Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i [nfcuconsultation@food.gov.uk](mailto:nfcuconsultation@food.gov.uk)

## Cynnwys

Cyflwyniad	4
Pwerau presennol yr Uned	6
Bygythiad troseddau bwyd	8
Cynigion ar gyfer pwerau ymchwilio	9
Cynnig i Gael Pwerau Ymchwilio Ychwanegol	10
Gweinyddiaethau datganoledig	13
Holiadur	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Amdanoch chi	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Gwybodaeth bellach a sut i ymateb	14
Atodiad A: Y broses ymgysylltu ac ymgynghori	15

## Cyflwyniad

Mae'r bygythiad o du troseddau bwyd yn ddifrifol, yn gymhleth, ac wedi'i wasgaru ledled y Deyrnas Unedig (DU), ac, oherwydd y cadwyni cyflenwi byd-eang sy'n nodweddu cynhyrchion risg uwch, mae'n trosgynnu ffiniau rhyngwladol, gan ofyn am ymateb cydgysylltiedig a soffistigedig. Mae enghreifftiau o droseddau bwyd yn cynnwys dargyfeirio bwyd anniogel y bwriedir ei waredu yn ôl i'r gadwyn gyflenwi, prosesu bwyd yn anghyfreithlon, neu ddifwyno bwyd â sylweddau eraill.

Sefydlwyd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yn 2015 o fewn yr ASB i roi ffocws unigol ar atal twyll a throseddau cysylltiedig, fel cynllwynio i dwyllo, mewn cadwyni cyflenwi bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan weithio ar y cyd â'i chwaer Uned yn Safonau Bwyd yr Alban.

Sefydlwyd yr Uned ar argymhelliad [Adolygiad Elliott](#), a oedd yn edrych ar uniondeb a sicrwydd rhwydweithiau cyflenwi bwyd, a gynhaliwyd yn dilyn canfod cig ceffyl mewn nifer o gynhyrchion cig eidion yn 2013.

Penderfynodd yr adolygiad y byddai dull dau gam yn synhwyrol er mwyn creu Uned Troseddau Bwyd newydd:

- Cam un fyddai cyfnod casglu tystiolaeth a datblygu achos busnes. Byddai angen i gam un fod yn destun adolygiad sylfaenol cyn y gellid dangos yr achos dros symud i gam dau.
- Byddai cam dau wedyn yn rhoi'r mecanweithiau angenrheidiol ar waith i ymchwilio i achosion a gweithredu.

I ddechrau, fel rhan o gam un, prif rôl yr Uned oedd pennu'r darlun cudd-wybodaeth o ran risgiau a natur troseddau bwyd yn y DU. Yn 2016, roedd cam un yn destun Adolygiad Kenworthy<sup>1</sup> a wnaeth argymhell ehangu mandad yr Uned y tu hwnt i'w swyddogaeth cudd-wybodaeth ac i'r Uned gael adnoddau a'r pwerau sydd eu hangen i gyflawni rôl ataliol ac ymchwiliol lawn. Yn dilyn ymgynghoriad trawslywodraethol, cymeradwywyd yr achos busnes i ehangu rôl yr Uned ym mis Mehefin 2018 a dechreuodd cam dau.

Mae'r Uned bellach yn cynnwys dros 80 o staff arbenigol dan arweiniad cyn-Ddirprwy Brif Gwnstabl. Mae ei hymchwiliadau (yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â thwyll) yn aml yn gymhleth ac yn heriol, ac ar hyn o bryd nid oes ganddi'r ystod lawn o bwerau sydd eu hangen i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol i sicrhau erlyniadau mewn achosion o'r fath. Er bod gan yr Uned fynediad at rai pwerau ac adnoddau ymchwilio, mae'n parhau i fod

---

<sup>1</sup>Cwblhawyd [Adolygiad Kenworthy](#) yn 2016 i adolygu gweithredu'r Uned gyfredol a chynnig opsiynau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

yn ddibynol ar bartneriaid allanol, yn bennaf yr heddlu, neu awdurdodau lleol o bosib, i gyflawni rhai swyddogaethau ymchwilio sylfaenol, fel gwneud cais am warantau chwilio, atafael tystiolaeth a goruchwylio cyfweiliadau â phobl a ddrwgdybir sy'n cael eu harestio.

Yn ei hadroddiad [Sicrhau Diogelwch a Safonau Bwyd](#), Mehefin 2019, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol “***nad oes gan y system reoleiddio'r ystod lawn o bwerau gorfodi i sicrhau bod busnesau'n cyflenwi bwyd diogel***”. Dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd:

- “Ategir trefn reoleiddio effeithiol gan bwerau gorfodi priodol sy'n galluogi swyddogion bwyd i gymryd camau effeithiol pan nad yw busnesau'n bodloni gofynion deddfwriaethol”;
- “Mae [yr Uned] wedi cytuno ar drefniadau i weithio gyda heddluoedd, oherwydd ar hyn o bryd nid oes ganddi'r ystod lawn o bwerau ymchwilio sydd eu hangen arni i weithredu'n annibynnol”;
- Mae angen deddfwriaeth i roi mynediad at bwerau [ymchwilio] ychwanegol.

Argymhellodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y “***dylai'r ASB fynd i'r afael â bylchau yn y pwerau gorfodi, gan gynnwys y rhai sydd ar gael i'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. O ystyried y cyllid ychwanegol sydd wedi'i neilltuo i'r Uned, dylai'r ASB wneud cynlluniau cadarn i ddarparu'r pwerau sydd eu hangen ar yr Uned i weithio'n annibynnol.***”

Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill eleni, yn cynnwys rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n estyn rhai pwerau statudol ychwanegol i'r Uned.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ynghylch a ddylid ymestyn rhai pwerau statudol ychwanegol i'r Uned. Mae hefyd yn ceisio safbwyntiau ar fesurau diogelu ychwanegol y gellid eu rhoi ar waith ochr yn ochr ag estyniad o'r fath. Trwy ymgynghori ar y mater hwn, mae'r ASB yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch a yw'r pwerau a'r mesurau diogelu a gynigir yn gyfres o fesurau cyfiawn a chymesur i alluogi'r Uned i fynd i'r afael â throseddau bwyd difrifol yn effeithiol.

Ar dudalennau 9 i 10 rydym yn nodi pa bwerau y mae'r ASB yn credu y dylid eu hymestyn i'r Uned, a bydd y dystiolaeth a geir yn yr ymgynghoriad hwn yn llywio'r argymhellion a wneir gan yr ASB i'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol fydd pennu cynnwys ac amseriad unrhyw ddeddfwriaeth i wneud newidiadau o'r fath.

Mae manylion ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid ar gael yn Atodiad A.

## Pwerau cyfredol yr Uned

Mae'r Uned yn rhan o'r ASB, sy'n adran anweinidogol o'r llywodraeth ac yn gorff rheoleiddio sydd ag amrywiaeth o bwerau mewn perthynas â gorfodi cyfraith bwyd. Mae'r Uned yn mynd i'r afael ag achosion difrifol, cyfundrefnol neu gymhleth o dwyll mewn perthynas â bwyd.

Mae'r Uned yn darparu ymateb cyfannol i droseddau bwyd gan ddefnyddio'r dull 4P a ddiffinnir gan [Strategaeth Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol y Swyddfa Gartref](#). Mae hyn yn ein galluogi i gael darlun cudd-wybodaeth a hefyd ei ddefnyddio i atal busnesau rhag dioddef troseddoldeb, diogelu'r cyhoedd, a rhoi ymatebion ymchwiliol ar waith lle bo'n briodol.



**Paratoi - (*Prepare*)** – sicrhau bod y galluoedd angenrheidiol ar gael i fynd i'r afael â throseddau bwyd



**Pursue - (*Ymlid*)** – erlyn troseddwr a atafaelu elw troseddau bwyd



**Amddiffyn - (*Protect*)** – lleihau pa mor agored yw busnesau a defnyddwyr i fygythiadau a risgiau troseddau bwyd



**Atal - (*Prevent*)** – atal unigolion/busnesau rhag cyflawni troseddau bwyd

Mae'r Uned yn gweithio gyda phartneriaid fel yr heddlu ac awdurdodau lleol, yn ddomestig ac yn rhyngwladol, i gynnal ymchwiliadau a all arwain at erlyniadau. Gall yr achosion hyn gynnwys cadwyni cyflenwi cymhleth ar draws ffiniau cenedlaethol. Enghraifft o ymgysylltu rhyngwladol mwy rhagweithiol yw cyfranogiad yr Uned yn Ymgyrch OPSON, menter ryngwladol a arweinir gan INTERPOL ac Europol sy'n targedu bwyd a diod ffug ac is-safonol. Gall hyn gynnwys cydweithio â phartneriaid rhyngwladol ar themâu o ddiddordeb cyffredin. Mae'r fenter hon yn tynnu bwyd a diod a allai fod yn annilys o'r farchnad sydd werth degau o filiynau o bunnoedd ledled y byd bob blwyddyn.

Mae gan yr ASB bwerau ymchwilio o dan 'gyfraith bwyd'<sup>2</sup> sydd, yn gyffredinol, yn ei galluogi i ymchwilio i droseddau rheoleiddiol mewn perthynas â bwyd. Mae ganddi hefyd bwerau eraill o dan y deddfau Pwerau Ymchwilio<sup>3</sup> (ynghylch gwyliadwriaeth gyfeiriedig, sicrhau data cyfathrebu a rheoli ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol) yn ogystal â mynediad at systemau gorfodi'r gyfraith gan gynnwys Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND) a chronfa ddata y System Adnabod

<sup>2</sup>Prif nod Rheoliad cyfraith a ddargedwir yr UE (EC) 178/2002, 'Cyfraith Bwyd Gyffredinol', yw diogelu iechyd pobl a sicrhau budd defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae'n berthnasol i bob cam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd a bwyd anifeiliaid gyda rhai eithriadau. Rhaid i fusnesau bwyd gydymffurfio â chyfraith diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

<sup>3</sup>Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Deddf Pwerau Ymchwilio 2016

Rhifau Ceir Awtomatig Genedlaethol (ANPR). Fodd bynnag, nid oes gan swyddogion yr Uned yn yr ASB fynediad at bwerau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) sy'n angenrheidiol i ymchwilio i droseddau ehangach sy'n effeithio ar y gadwyn cyflenwi bwyd, er enghraifft troseddau o dan Ddeddf Twyll 2006. Mae hyn yn achosi nifer o broblemau i'r Uned:

- Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth bwyd yn cyfyngu ar y pwerau sydd ar gael i'r ASB ar gyfer gorfodi gweithredwyr busnesau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd wrth gynnal 'Rheolaethau Swyddogol'. Rheolaethau swyddogol yw gweithgareddau a gyflawnir gan yr awdurdodau i wirio bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd. Nid yw'r pwerau statudol yn ddigon eang i'w defnyddio i ymchwilio i droseddau y tu allan i gyfraith bwyd gyffredinol.
- Er bod y pwerau ymchwilio sydd eisoes ar gael i'r ASB y tu allan i gyfraith bwyd yn ddefnyddiol, nid ydynt yn ddigon i gyflawni rôl ymchwiliol gwbl effeithiol i droseddoldeb difrifol sy'n ymwneud â bwyd, gan eu bod yn:
  - ymwneud yn bennaf â chasglu cudd-wybodaeth trwy ddulliau cudd, ac felly;
  - nid ydynt yn darparu'r sbectwm llawn o bwerau ymchwilio a fyddai fel arfer yn angenrheidiol i gasglu'r safon o dystiolaeth sydd ei hangen i sicrhau euogfarn mewn achosion difrifol neu gymhleth.

Mae'r Uned yn dibynnu felly ar bartneriaid i gyflawni swyddogaethau ymchwilio sylfaenol – er enghraifft, i wneud cais am warantau chwilio, atafael tystiolaeth a goruchwylio cyfweiliadau â phobl a ddrwgdybir sy'n cael eu harestio. Nid yn unig y mae hyn yn rhoi straen ar adnoddau'r heddlu, gall hefyd achosi anawsterau ymarferol.

Gall dibynnu ar bartneriaid i arfer eu pwerau ymchwilio ar ran yr ASB fod yn aneffeithlon (gan arwain at oedi wrth ymchwilio), yn fwy cymhleth yn sefydliadol, a gall gymryd amser ac adnoddau partneriaid oddi wrth eu blaenoriaethau gweithredol eu hunain. Er enghraifft, efallai y bydd ymchwiliadau'r Uned yn cael eu gohirio oherwydd y gofyniad i'r heddlu ymwneud â cheisiadau am warantau. Gall amser hefyd gael ei golli wrth gasglu tystiolaeth neu gynnal cyfweiliadau oherwydd nad yw'r heddlu ar gael. Mae hyn yn gwbl ddealladwy gan fod yr ASB yn cydnabod bod gan heddluoedd lleol eu blaenoriaethau gweithredol eu hunain y mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt.

## Bygythiad troseddau bwyd

Gall fod yn anodd mesur gwir raddau troseddau bwyd er bod ymdrechion ar waith i gyflawni hyn yn well trwy [ymchwil academaidd barhaus](#). Mae twyll, trwy ddiffiniad, yn weithgarwch cudd, a gall y bobl sy'n rhan ohono fod yn fedrus wrth guddio eu troseddau. Yr hyn sy'n amlwg yw y gall effaith troseddau bwyd ar ddefnyddwyr ac ar fusnesau fod yn eang, ac mewn rhai achosion, yn hynod niweidiol.

Gall troseddau bwyd effeithio ar ddefnyddwyr yn gorfforol, yn emosiynol ac yn ariannol. Gall cemegau gwenwynig sy'n cael eu marchnata'n anghyfreithlon fel atchwanegiadau, neu fwyd sydd fel arall yn anniogel, achosi risgiau iechyd difrifol.

Yn ddiweddar, cydlynodd yr Uned ymchwiliad i brosesu cig yn anghyfreithlon, a oedd yn cynnwys paratoi cig mewn amgylchiadau afiach ar lawr safle golchi ceir ac yna ei werthu ar-lein. Atafaelwyd cyfanswm o 5.3 tonnelli o gig. Y gred oedd bod swm sylweddol o gig eisoes wedi'i gyflenwi i gwsmeriaid ac roedd y cynnyrch i'w ddosbarthu'n genedlaethol.

Mae'r math hwn o droseddau bwyd yn aml yn gysylltiedig â mathau eraill o droseddau bwyd, megis dwyn da byw, twyll dogfennau a chamgyfleu. Mae arferion o'r fath yn niweidiol i weithredwyr busnesau bwyd sy'n parchu'r gyfraith ac sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol. Mae hyn oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â gweithredu heb gymeradwyaeth, ond hefyd oherwydd y gall bodolaeth busnesau heb eu rheoleiddio danseilio hyder ehangach yn niwydiant bwyd y DU.

Mae troseddau bwyd yn bennaf yn droseddau â chymhelliant economaidd. Gall y sawl sy'n cyflawni trosedd gamddefnyddio labeli statws premiwm, neu amnewid neu ddifwyno â chynhyrchion neu gynhwysion o ansawdd is i wneud elw ar draul defnyddwyr a busnesau cyfreithlon eraill. Mae ymchwil academaidd wedi awgrymu y gall hyn beri 'parodrwydd i dalu' premiwm ymhlith defnyddwyr er mwyn osgoi dod i gysylltiad â bwyd twyllodrus.

Gall yr effaith ariannol ar fusnesau fod ar ffurfiau eraill. Mewn un ymchwiliad sy'n mynd rhagddo o hyd gan yr Uned, mae troseddau dwyn sy'n hwyluso rhagor o droseddau bwyd (ar ffurf dargyfeirio gwastraff) wedi cynnwys cael gwared ar fwyd gwerth £6 miliwn. Mae ymyriadau sy'n rhan o'r un ymchwiliad hwnnw wedi arwain at atal rhoi cymeradwyaeth ar gyfer trin Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i fusnes gwerth miliynau o bunnoedd.



## Cynigion ar gyfer pwerau ymchwilio

Mae'r ASB yn ceisio safbwyntiau ar y cynnig y dylid rhoi pwerau ymchwilio ychwanegol i'r Uned i'w galluogi i ganfod ac ymchwilio'n fwy effeithiol i droseddau difrifol megis twyll a allai effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd. Byddai angen is-ddeddfwriaeth er mwyn darparu pwerau o'r fath i'r ASB.

Mae'r ASB o'r farn bod angen pwerau ymchwilio pellach er mwyn i'r Uned allu gweithredu ei chylch gwaith a'i mandad i arwain ymchwiliadau troseddol i droseddau bwyd cymhleth, i'w herlyn gan Wasanaeth Eryl y Goron (CPS), yn annibynnol. Mae'r pwerau arfaethedig yn ymwneud â'r gallu i wneud cais am warantau chwilio, atafael tystiolaeth a chyfweld â phobl a ddrwgdybir sy'n cael eu harestio.

Mae'r pwerau hyn wedi'u defnyddio gan gyrff eraill nad ydynt yn heddluoedd, fel yr Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA) ac Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae defnyddio pwerau ymchwilio yn gyfrifoldeb difrifol a rhaid ei arfer, ei reoli a'i fonitro'n ofalus er mwyn cynnal hyder y cyhoedd ac atal camddefnydd.. Am y rheswm hwn, mae angen awdurdodiad barnwrol trwy warant chwilio ar gyfer arfer pwerau chwilio ac atafaelu. Mae'r ASB yn ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref ar y trefniadau atebolrwydd a llywodraethu ychwanegol priodol ar gyfer arfer y pwerau hyn, o ystyried eu natur ymwithiol.

Mae gan yr ASB eisoes fynediad at amrywiaeth o bwerau ymchwilio ac mae ganddi brofiad helaeth o'u harfer mewn modd cymesur sy'n gyson â mesurau diogelu a safonau proffesiynol perthnasol ac sy'n destun arolygiaeth annibynnol. Er gwaethaf y pwerau eang sydd ar gael o dan PACE, mae'r ASB wedi asesu'n wrthrychol pa bwerau penodol sydd eu hangen i gyflawni mandad yr Uned yn fwyaf effeithiol ac sy'n cynnig nifer cymesur a chyfyngedig o bwerau i swyddogion troseddau bwyd. Nid yw'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys pwerau arestio.

## Cynnig am Bwerau Ymchwilio Ychwanegol

**Cynnig A: Byddai'r ASB yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ddylid rhoi pwerau i'r ASB (Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd) o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (CJPA) a Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (CJPO) a restrir isod:**

<b>PACE 1984 (Cymru a Lloegr)</b>	<b>Disgrifiad o'r Pŵer</b>
Adran 8	Pŵer gwarant mynediad tystiolaethol, gwarant chwilio ac atafael i gynnal chwiliadau mewn safleoedd lle mae sail resymol dros gredu y gallai fod tystiolaeth o drosedd dditiadwy, ac atafael deunydd at ddibenion tystiolaethol.
Adran 9	Pŵer gwarant mynediad tystiolaethol, gwarant chwilio ac atafaelu. o dan Atodlen 1 – sydd, yn wahanol i adran 8, yn caniatáu chwilio deunyddiau gweithdrefnau arbennig, sy'n cynnwys cofnodion busnes. <i>Oherwydd natur ymchwiliadau, byddai'r Uned yn dibynnu'n bennaf ar y math hwn o warant.</i>
Adran 9 (Atodlen 1)	Y pŵer i gael 'Gorchymyn Cyflwyno' ar gyfer 'Deunyddiau Gweithdrefnau Arbennig' i orfodi pobl dan amheuaeth i ddarparu gwybodaeth i ymchwilwyr y gellid fel arall ei dal yn gyfrinachol.
Adran 19	Pŵer Atafael Cyffredinol pan fyddir ar safle yn gyfreithlon i atafael tystiolaeth o droseddau eraill pan fydd angen ei hatafael er mwyn atal ei ei chuddio, ei cholli, ei newid neu ei dinistrio.
Adran 20	Estyn pwerau atafael i gwmpasu gwybodaeth gyfrifiadurol. <i>Mae hyn yn galluogi swyddogion i atafael gwybodaeth sy'n cael ei storio ar unrhyw ffurf electronig</i>
Adran 21	Cyrchu a chopio unrhyw ddeunydd wedi'i atafael a'r gofyniad i ddarparu cofnod o ddeunydd wedi'i atafael.
Adran 22	Y pwerau i gadw deunydd wedi'i atafael <i>Mae hyn yn galluogi swyddogion yr Uned i gadw unrhyw beth a atafaelwyd fel rhan o ymchwiliad troseddol cyhyd ag y bo angen mewn amgylchiadau penodol</i>
Adran 39	Y pwerau i roi pobl dan glo mewn dalfeydd at ddibenion cyfweld <i>Ni fyddai hyn yn golygu bod swyddogion yr Uned yn arestio pobl ond yn eu cadw ar ôl cael eu harestio gan yr Heddlu (byddai swyddogion yr Uned yn cymryd cyfrifoldeb am eu lles) er mwyn eu cyfweld dan rybudd.</i>
<b>CJPA 2001</b>	<b>Disgrifiad o'r Pŵer</b>

Adrannau 50-53	Yn galluogi atafael eitemau y credir eu bod yn cynnwys tystiolaeth o'r drosedd neu droseddau yr ymchwiliir iddynt lle nad yw'n ymarferol gwahanu'r dystiolaeth berthnasol yn y lleoliad y deuir o hyd iddi. <i>Cyfeirir at y rhain yn gyffredin fel pwerau atafaelu a sifftio</i>
<b>CJPO 1994</b>	<b>Disgrifiad o'r Pŵer</b>
Adrannau 36	Pan fydd person yn cael ei arestio gan gwnstabl, ac y bo ar ei berson, dillad neu fel arall yn ei feddiant, neu mewn unrhyw le y mae ar adeg ei arestio, sylwedd neu farc y gellir ei briodoli'n rhesymol i'r drosedd, gellir dod i gasgliad os yw'n methu â rhoi cyfrif am y gwrthrych, y pwnc neu'r marciau.
Adrannau 37	Yn debyg i'r uchod, lle gellir dod i gasgliad os yw person a arestiwyd yn gwrthod rhoi cyfrif am ei bresenoldeb mewn man penodol ar yr adeg yr honnir i'r drosedd gael ei chyflawni.

Er mwyn sicrhau ymhellach y byddai pwerau ychwanegol yn cael eu harfer gan Uned yr ASB yn yr un modd proffesiynol â'r rheiny sydd gan yr ASB eisoes, mae'r ASB wedi rhoi'r mesurau diogelu canlynol ar waith, neu'n cynnig eu rhoi ar waith:

- Mynediad cyfyngedig at bwerau i'r rheiny sydd wedi'u fetio a'u hyfforddi'n briodol: bydd mynediad at y pwerau hyn yn gyfyngedig i swyddogion arbenigol yr Uned sydd wedi'u fetio'n briodol ac yr aseswyd eu bod wedi'u hyfforddi'n flaenorol a bod ganddynt brofiad addas yn y defnydd blaenorol o'r pwerau hyn wrth gydymffurfio â'r Codau Ymarfer perthnasol (er enghraifft cyn-Swyddogion yr Heddlu), neu swyddogion yr Uned sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddefnyddio'r pwerau hyn, sydd wedi cael hyfforddiant ar y Codau Ymarfer perthnasol ac sydd wedi'u hachredu fel ymchwiliwyr twyll.
- Mae prosesau a gweithdrefnau ar waith, yn cael eu dilyn, ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd: Bydd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) yr Uned yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r defnydd priodol o'r pwerau uwch yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol.
- Cynghorwyr cyfreithiol ymroddedig: Bydd gan yr Uned fynediad at gyngor cyfreithiol arbenigol penodol ar ddefnyddio eu pwerau.
- Cydweithio parhaus â'r rheiny sy'n gorfodi'r gyfraith: Bydd yr Uned yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid gorfodi'r gyfraith, gan ddefnyddio eu harbenigedd lle bo angen.
- Craffu, archwilio ac arolygu allanol cyfredol: Mae'r Uned eisoes yn destun trefn arolygu Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) ac mae wedi cael adolygiadau ffafriol ar gyfer ein proses a'n llywodraethu. Mae'r Swyddfa dros Awdurdodi Data Cyfathrebiadau (OCDA) yn craffu'n annibynnol ar geisiadau am ddata cyfathrebu.

- Gweithdrefn gwyno annibynnol: Mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 yn diwygio Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 i sicrhau bod cylch gwaith Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn cwmpasu defnydd yr Uned o PACE a phwerau cysylltiedig.

Craffu allanol ychwanegol y gellid ei roi ar waith:

- Arolygaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EM (HMICFRS): Mater i'r Ysgrifennydd Cartref benderfynu arno fyddai hwn. Mae'r ASB yn fodlon cyflwyno'n wirfoddol i arolygiad ar faterion perthnasol neu gellid estyn cylch gorchwyl statudol HMICFRS i gynnwys gweithgareddau'r Uned. Byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd.

Er bod Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno unrhyw ddarpariaeth o dan PACE i swyddogion troseddau bwyd, yn ein barn ni, mae'r mesurau deddfwriaethol y mae'r ASB yn eu cynnig wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n angenrheidiol i ganiatáu i'r Uned weithredu ei swyddogaethau ymchwilio yn effeithiol ac yn effeithlon, ac i leihau'r baich y mae'r ASB yn ei roi ar bartneriaid. Mae'r pwerau – i wneud cais am warantau chwilio, atafael tystiolaeth a chyfweld â phobl a ddrwgdybir yn y ddalfa – yn hanfodol i ymchwiliadau troseddol, a hebddynt ni all yr Uned gyflawni ei swyddogaethau arfaethedig yn annibynnol yn effeithiol.

## Gweinyddiaethau datganoledig

Mae cylch gwaith yr ASB yn estyn i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Er mai uchelgais yr ASB yw cael pwerau ymchwilio ychwanegol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae cwmpas yr ymgynghoriad hwn ar gyfer Cymru a Lloegr yn unig gan fod y pŵer galluogi i wneud rheoliadau o fewn Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 wedi'i gyfyngu i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, y mae ei chymhwyso'n gyfyngedig i Gymru a Lloegr.

Bydd ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal ar gyfer Gogledd Iwerddon maes o law.

Mae Safonau Bwyd yr Alban yn cadw cyfrifoldeb am ddiogelwch a hylendid bwyd yn yr Alban gydag Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) benodedig.

## Gwybodaeth bellach a sut i ymateb

Os oes angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat haws ei ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag [egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi](#).

Rhaid i ymatebion ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 18 Awst 2022. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

**Anfonwch eich ymateb i [nfcuconsultation@food.gov.uk](mailto:nfcuconsultation@food.gov.uk)**

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau, sydd i'w gael fan hyn: <https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgyngoriadau> .

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

## Atodiad A: Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

Trwy'r gwaith ymgysylltu hwn mae'r ASB yn ceisio casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ehangach ar gynlluniau arfaethedig yr ASB i geisio pwerau ymchwilio uwch gan y Llywodraeth. Hyd yn hyn, mae'r ASB wedi canolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu ar draws y llywodraeth a gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith, felly dyma fydd y cyfle cyntaf i set ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr a busnesau bwyd unigol, gael dweud eu dweud.

### Ymgysylltu hyd yma

Mae'r ASB wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid dros nifer o flynyddoedd i archwilio'r manteision posib i'r Uned o gael pwerau ymchwilio uwch. Hyd yn hyn, mae'r gwaith ymgysylltu wedi estyn ar draws Whitehall, gan gynnwys y Grŵp Uniondeb Bwyd a Throseddau Bwyd trawsadrannol (aelodau'r grŵp yw Defra, DHSC, y Swyddfa Gartref a BEIS).

Mae'r ASB yn parhau i ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig gan fod bwyd yn fater datganoledig yng Nghymru (o dan Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) a Gogledd Iwerddon (lle nad yw'n fater a eithrir neu a gedwir yn ôl). Mae plismona hefyd yn fater datganoledig yng Ngogledd Iwerddon a bydd yr ASB yn gweithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu mewn perthynas ag unrhyw bwerau ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r ASB eisoes wedi cael cefnogaeth ysgrifenedig gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Rhwydwaith Gwybodaeth y Diwydiant Bwyd, sef casgliad o fusnesau bwyd mawr sy'n gweithio gyda'i gilydd i rannu data samplu anhysbys a phryderon am ddilysrwydd, ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol.

### Proses yn dilyn ymgynghoriad

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr ASB yn adolygu ymatebion rhanddeiliaid ac yn cyhoeddi adroddiad crynodeb ymatebion ar ei gwefan. Bydd safbwyntiau rhanddeiliaid yn helpu i adeiladu'r sail dystiolaeth ac yn llywio'r gwaith o ystyried cynigion yr ASB i geisio pwerau ymchwilio uwch i'r Uned.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, bydd yr ASB yn cyhoeddi ei phenderfyniad ynghylch a yw'n bwriadu gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu estyn pwerau ymchwilio'r ASB drwy reoliadau.